



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl swydd: Tiwtor Cyswllt mewn Celf Gêm

Lleoliad: Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd

Cyflog: £47.74 yr awr ynghyd â thâl gwyliau 18%

Crynodeb rôl:

Gan weithio o fewn Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, mae'n bosib y bydd gofyn i'r Tiwtor Cyswllt ddarparu addysgu ar gyfer modiwlau ar y rhaglen BA Celf Gêm, yn ogystal â modiwlau Traws-ysgol perthnasol eraill fel rhan o gwricwlwm rhyngddisgyblaethol yr Ysgol. Bydd hyn fel arfer yn digwydd yn achlysurol neu'n sesiynol, gan ddarparu profiadau dysgu o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â safonau creadigol ac academiaidd yr Ysgol.

Gallai gwaith olygu cwmpasu ar gyfer staff academiaidd mewn adegau o salwch, pan fydd staff ar absenoldeb ymchwil y cytunwyd arnynt, gweithio gyda'r tîm i gyflwyno'r rhaglen yn sesiwn drwy gydol y flwyddyn neu gyflwyno cyrsiau byr ar y nosweithiau neu'r penwythnosau.

Sylwer bod ffi'r sesiwn yn cynnwys dyletswyddau addysgu a dyletswyddau cysylltiedig, h.y. awr y cyflenwi ynghyd ag un awr ar gyfer y dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r awr honno o gyflwyno gan gynnwys paratoi ac asesu.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

- Cael a bod yn gyfarwydd â dogfennau'r cwrs perthnasol sy'n rhoi gwybodaeth sy'n gysylltiedig â nodau a gweithrediad y cwrs, gan gynnwys y maes llafur, dulliau asesu, dulliau addysgu a ffefrir, gwybodaeth sydd ei hangen gan fyfyrwyr, dyddiadau ac amserau'r cwrs, ac ati.
- Cysylltu ag aelodau o dîm y rhaglen, fel y bo'n briodol, er mwyn deall gofynion, cydlynu cynlluniau a chymhellu gweinyddol ac i drafod newidiadau.
- Paratoi deunydd cwrs effeithiol a fydd yn cyflawni nodau'r cwrs, gan gynnwys gwella'r profiad dysgu drwy ddull sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr.
- Mynychu a chyflwyno sesiynau fel y cytunwyd arnynt, darlithio, arwain trafodaethau a darparu arweiniad a chynghor fel arall a hyrwyddo dysgu, yn ôl yr angen.

- Paratoi a marcio, yn ôl yr angen, unrhyw waith ysgrifenedig cysylltiedig, gwaith stiwdio, gwaith dosbarth a phapurau arholi, o fewn y gweithdrefnau asesu priodol.
- Rhoi adborth adeiladol ac amserol i fyfyrwyr ar eu cynnydd.
- Cadw cofnodion asesu a phresenoldeb o'r fath yn ôl y gofyn gan y Brifysgol.
- Arsylwi amseroedd agor a chau dosbarth yn llym.
- Sicrhau bod y Pennaeth Adran a'r dosbarth yn cael gwybod am eu habsenoldeb, lle na ellir osgoi hyn, cyn belled ymlaen llaw ag y bo modd.
- Darparu, lle bo'n briodol, cynllun cwrs/gwaith, set o amcanion a rhestrau darllen i fyfyrwyr.
- Mynychu cyfarfodydd, sesiynau sefydlu a datblygu yn ôl yr angen.

Hysbysiad Safonol

Darperir y canllawiau hyn i'ch cynorthwyo i berfformio'ch rôl. Mae'r brifysgol yn sefydliad deinamig; felly mae'n bosib y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir i'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau fod yn rhestr gynhwysfawr o dasgau a gyflawnir. Mae tasgau cysylltiedig eraill yn debygol o gael eu cyflawni yn unol â chyfarwyddyd y rheolwr llinell.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyladwy i effaith eu hymddygiad personol a'u hymddygiad ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ymlyniad â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w gyfrifoldebau o dan bolisiâu a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Gwasanaethau Pobl ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

MANYLEB PERSON

Teitl y Swydd: Tiwtor Cyswllt mewn Celf Gêm

Ysgol/Uned: Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd

* Allwedd

FfG - Ffurflen gais

Cyfw - Cyfweliad

Cyfl - Cyflwyniad

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	ASESWYD GAN		
		FfG*	F f G *	FfG *
Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)	Gradd anrhydedd dda a/neu gymhwyster proffesiynol cyfatebol. Y gallu i ennill Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch.	✓ ✓		
Addysg a Chymwysterau (Dymunol)	Meistr da a/neu gymhwyster proffesiynol cyfatebol. Doethuriaeth neu brofiad ymchwil cyfatebol. Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch.	✓ ✓ ✓		
Gwybodaeth (Hanfodol)	Lefel dda o wybodaeth sy'n berthnasol i bwnc a maes proffesiynol Celf Gêm. Gwybodaeth gadarn mewn un neu fwy o'r meysydd canlynol: Datblygu asedau gêm 2D a/neu 3D, cymeriadau, amgylcheddau, propiau, UI, VFX. Optimeiddio asedau celf ar gyfer gofynion perfformiad ac injan. Arwain datblygiad hunaniaeth weledol yng nghyd-destun Celf Gêm. Tystiolaeth o ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Dealltwriaeth gadarn o addysgeg.	✓ ✓ ✓	✓ ✓ ✓	✓ ✓ ✓

Sgiliau a Galluoedd sy'n ymwneud â rôl (Hanfodol)	Y gallu i ddylunio deunydd addysgu a dysgu. Y gallu i ddefnyddio dulliau asesu priodol. Y gallu i ymgymryd â dyletswyddau gweinyddol mewn modd cywir ac amserol. Y gallu i gynllunio llwythi gwaith. Y gallu i nodi meysydd i'w gwella ac i ddefnyddio sgiliau menter a datrys problemau i wella perfformiad. Y gallu i gyfathrebu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol mewn amrywiaeth o ffyrdd — cyflwyniadau, adroddiadau, deunyddiau dysgu. Y gallu i ddatblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchol fel rhan o dîm proffesiynol.	✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓	✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓	✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓ ✓
Profiad wedi'i Dalu/Di-dâl (Dymunol)	Profiad o addysgu.	✓		
Gofynion Eraill (Hanfodol)	Y gallu i ddangos ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch, Safonau Ansawdd.		✓	
Iaith Gymraeg Sgiliau Gwranddo Dymunol	A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	✓		
Iaith Gymraeg Sgiliau Darllen Dymunol	A1 - Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	✓		
Iaith Gymraeg Sgiliau Siarad Dymunol	<u>Siarad</u> A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol yn y Gymraeg.	✓		

laith Gymraeg Sgiliau Ysgrifennu Dymunol	<u>Ysgrifennu</u> A1 – Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	✓		
---	---	---	--	--